Morgan John Rhys, ‘Morgan ab Ioan Rhus’, 1760–1804

Gweinidog (B), awdur, ac ymgyrchydd yn erbyn caethwasiaeth

Ganwyd Morgan John Rhys ar fferm Graddfa, ger Llanbradach, plwyf Llanfabon, sir Forgannwg, ar 8 Rhagfyr 1760, yn bedwerydd mab i John ac Elisabeth Rhys. Tyddynwyr oedd ei rieni; ei dad yn Annibynnwr a’i fam yn mynychu eglwys y Bedyddwyr yn Hengoed. Cafodd addysg dda yn ysgol David Williams yng Nghaerfyrddin, a phan oedd yn ifanc fe gafodd dröedigaeth o dan weinidogaeth Lewis James, Hengoed, gan ddod yn aelod eglwysig. Cadwodd ysgol rad i blant yn yr ardal o 1780 i 1786 ac fe’i hanogwyd gan ei eglwys i fynd i’r weinidogaeth. Aeth i’r athrofa yng Nghaerodor (Bryste) ym 1786, ac yna’r flwyddyn ddilynol fe’i hordeiniwyd yn weinidog ar eglwys Pen-y-garn, Pont-y-pŵl, lle y bu hyd 1791.

Cyhoeddodd nifer o lyfrau, ac yn eu plith lyfrynnau yn gwrthwynebu caethwasiaeth, megis *Achwynion dynion duon mewn caethiwed truenus yn Ynysoedd y Siwgr* (1789). Y mae’r gweithiau hyn yn arwyddocaol oherwydd dyma’r rhai cyntaf yn y Gymraeg yn erbyn y fasnach ddieflig honno. Ym 1791 yr oedd yn rhentu ystafell ym Mharis, er mwyn pregethu’r Efengyl a dosbarthu Beiblau. Credai fod y bobl yno wedi blino ar ormes ‘brenhinoedd ac offeiriaid’ ac mai arwydd o hyn oedd y Chwyldro Ffrengig. Dychwelodd i Gymru ym 1792 gan sefydlu cymdeithasau i godi arian i argraffu Beiblau Ffrangeg newydd. Roedd yn gryn arloeswr oherwydd dyma’r tro cyntaf i Fedyddwyr Cymru – a hyd y gwn i, i unrhyw un o’r enwadau – gefnogi anfon gair Duw dramor, a hynny ddeuddeng mlynedd cyn sefydlu Cymdeithas y Beibl. Ym mis Chwefror 1793 cyhoeddodd y chwarterolyn *Cylchgrawn Cymraeg*; neu *Trysorfa Gwybodaeth*, a gynhwysai erthyglau ar bynciau gwleidyddol a chrefyddol. Dyma’r cylchgrawn cyntaf o’i fath yn y Gymraeg. Ymddiddorai hefyd mewn addysgu plant ac y

mae traddodiad mai ef a sefydlodd yr ysgol Sul gyntaf yng ngwledydd Prydain, a hynny yn Hengoed yn y 1780au. Erbyn 1793 yr oedd yn brysur yn sefydlu ysgolion dyddiol ac ysgolion Sul ac yn paratoi deunydd ar eu cyfer.

Penderfynodd ymfudo i America ym 1794 i geisio bywyd newydd, a dywed rhai iddo ffoi oherwydd erledigaeth. Hwyliodd o Lerpwl ym mis Awst ar fwrdd y *Port Mary* gan lanio yn Efrog Newydd ym mis Hydref. Teithiodd yn eang trwy'r taleithiau ar ei geffyl yn pregethu'r Efengyl ac yn traethu ar bynciau fel heddwch, caethwasanaeth a rhyddid crefyddol. Tra oedd yn Savannah agorodd ysgol ddyddiol i blant o dras Affricanaidd. Priododd yn Philadelphia ym 1796 ag Ann, merch y Cyrnol Benjamin Loxley a oedd yn gyfaill i Benjamin Franklin. Fel llawer o Gymry ei oes yr oedd ganddo freuddwyd o sefydlu gwladfa Gymreig ac fe ffurfiodd gwmni i'r perwyl hwnnw, sef The Cambrian Company.

Wedi iddo fethu cael tir gan y Senedd, prynodd dir yn nyffryn Blacklick, Gwlad yr Haf, a galwyd y wladfa yn Cambria a'r brif dref yn Beula. Anogodd Gymry i symud yno a chasglodd yr ymfudwyr o bob enwad at ei gilydd gan sefydlu eglwys newydd, sef yr Eglwys Gristnogol. Sefydlodd hefyd lyfrgell, ysgolion dyddiol ac ysgolion Sul, ynghyd â phapur newydd *The Western Sky* (1798). Ym 1799 symudodd i Somerset, prif dref swydd Somerset, ac yn fuan gwnaethpwyd ef yn Ustus Heddwch ac yn farnwr. Bu farw 7 Rhagfyr 1804 gan adael gweddw a phump o blant a chladdwyd ef yn Somerset, Pennsylvania. Wedi dwy flynedd symudwyd ei weddillion i fedd y teulu yn Philadelphia.